


# RHODD CYMODI COSTUS CRIST

## WYTHNOS 1

“CARIAD CRIST YN SYMUD Y BYD TUAG AT GYMOD AC UNDOD”

**Ysgrythur:** Mathew 9: 35-38

**Myfyrdod**

Dechreuwn y gyfres hon o’r Grawys gyda myfyrdod ar ein galwad. Wrth ddarllen y dogfennau a’r datganiadau a ddaeth allan o unfed Cynulliad ar ddeg Cyngor Eglwysi’r Byd, gall graddfa a maint y pwysau sydd ar berthnasau a’r rhwystrau i lewyrch dynol deimlo’n llethol. Heb amheuaeth, mae yna angen am fwy o weithwyr yn y maes. Yn y darn yma o Ysgrythur, cawn ein hatgoffa na all gwaith cymodi ddigwydd heb arweinyddiaeth ac ymdrech ddynol. Gelwir arnom i wasanaethu a gwireddu gweledigaeth Teyrnas Duw ar gyfer y sawl sydd yn dioddef. Yr ymrwymiad yma sydd wrth galon ein taith eciwmenaidd.

Pa ran a chyfrifoldeb allai fod gennym wrth annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y gwaith hwn? Beth yw rhai o’r rhwystrau sydd yn atal neu’n anghymell Cristnogion rhag cymryd rhan weithgar yng ngwaith heddwch a chymodi, a chysylltu’r gwaith hwn i’w ffydd? Ydy’r alwad am gymod gan yr Eglwys yn cael ei leidio’n ddigon cryf, ac mewn modd sy’n cysylltu gydag amgylchiadau bywyd dyddiol pobl? Beth yw ein hymateb i’r sawl nad sy’n ystyried fod yr Eglwys yn arweinydd credadwy wth weithio dros heddwch? Dyma rai o’r cwestiynau efallai y dymunwn fyfyrio ynglŷn nhw wrth i ni ystyried nid yn unig ein galwad personol ein hunain, ond hefyd ein cyfrifoldeb i gefnogi eraill i ymgysylltu gyda ni yn y gwaith hwn.

Yn ystod yr wythnos hon bydd ein calonnau yn teimlo dros bobl yr Wcráin yn arbennig wrth i ni gofnodi pen-blwydd cyntaf ymosodiad llawn gan Rwsia gyda thrais di-baid, dinistr a cholled a dioddefaint na ellid ei ddychmygu. Un o’r heriau niferus a ddaeth i’r wyneb yn ystod Cymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd oedd yr anhawster o siarad am heddwch yng nghanol erchyllterau rhyfel. Gweddïwn dros y sawl sydd yn ceisio cadw gweledigaeth cymod yn fyw a’r gobaith o adnewyddu perthynas gyda chyfiawnder a gwirionedd, tra’n anrhydeddu dioddefaint y sawl a gollodd gymaint. Cofiwn hefyd y sawl yn Rwsia sydd â’r dewrder i fod yn dangnefeddwyr a thrwy hynny yn wynebu perygl personol. Yn olaf, cofiwn fod y drasiedi sydd yn datblygu yn yr Wcráin yn cael ei rannu gan gymunedau mewn rhannau eraill o’r byd sydd angen ein cydsafiad ac sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso. Gweddïwn dros ddioddefwyr rhyfel a anghofiwyd ac ystyriwn yr hyn a allwn ei wneud er mwyn amlygu eu dioddefaint.

Mae'r rhan o’r Ysgrythur heddiw yn cynnig her a chysur. Cawn ein galw at synnwyr o gyfrifoldeb - allwn ni ddim gadael popeth i Dduw. Cawn ein hatgoffa o’r angen am ostyngeiddrwydd - does dim modd i ni gyflawni unrhyw beth heb Dduw a’n man cychwyn yw gofyn am fendith Duw a chymorth gyda’n hymdrechion.

### Cwestiynau ar gyfer myfyrfod a thrafodaeth

- Gwrandewch ar sesiwn thematig Cyngor Eglwysi’r Byd ar Ryfel yn yr Wcráin. Beth sy’n eich cynhyrfu fwyaf o lais yr Eglwys yn yr Wcráin?
- Ystyriwch ystod y gwrthdrawiadau a bygythiadau i heddwch a amlinellir yn natganiad Cyngor Eglwysi’r Byd ar ‘Y pethau sy’n achosi heddwch’. Sawl un o’r rhain ydych chi’n ymwybodol ohonyn nhw, ac o’r rhain, faint ydych chi’n eu dilyn yn frwd?
- Ydych chi’n credu gallai’r Eglwys wneud mwy i helpu i gyfrannu tuag at ymateb mwy cyfannol i gwestiynau byd-eang o heddwch, diogelwch a chymodi?

### Gweithredoedd

- Lawrlwythwch Adnodd gwasanaethu Cyngor Eglwysi’r Byd Gwerddon Heddwch/An Oasis of Peace a/neu gwyliwch rhai o’r sesiynau addoli ar sianel YouTube Cyngor Eglwysi’r Byd fel adnodd a ffynhonell o wybodaeth.
- A allech chi gymryd peth amser i weddio dros rhai o’r gwrthdrawiadau a sefyllfaoedd a amlinellir yn natganiad Cyngor Eglwysi’r Byd ‘Y pethau sy’n achosi heddwch/The things that make for peace’, yn enwedig y pethau hynny sydd yn y newyddion yn llai aml.
- Fe’ch gwahoddwn chi i ddefnyddio tudalen adnodd CTBI ar gymorth eglwysig ar gyfer yr Wcráin er mwyn cofnodi pen-blwydd ymosodiad Rwsia drwy weddi, codi ymwybyddiaeth a chefnogi anghenion dyngarol.

### Gweddi

Dduw cariadus,
Llywia ein hymdrechion wrth i ni geisio ymateb
I’r alwad i fod yn dangnefeddwyr.
Maddau i ni ein camweddau a’r cyfleoedd a gollom.
Gwna ni’n drugarog yn ein
hymateb i ddioddefaint,
Ac yn ddewr yn ein hymrwymiad
i gymodi.
Helpa ni i weld yn glir y
Llwybr sy’n arwain at heddwch
yng nghanol y trais a dioddefaint.
Cadwa obaith am heddwch yn fyw
yng nghalonau pobl yr Wcráin,
a dioddefwyr angof rhyfel o amgylch y byd.
Amen.